
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Andrew Thomas Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 02 Mehefin 2026

Dyddiad cyhoeddi: 02 Medi 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-264-1

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 9

   Ansawdd Profiad y Claf 9

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 12

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 16

4. Y camau nesaf 19

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 20

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 21

Atodiad C – Cynllun gwella 22



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Andrew Thomas Dental Care, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 02 Mehefin 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd tri gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu cefnogi'n dda a bod gwybodaeth ar gael am wasanaethau a chynnych orthodontig. Dywedodd y cleifion ei bod yn hawdd deall cyngor ar ofal iechyd y geg a bod amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig ar gael. Nodwyd cyfleoedd i ehangu'r wybodaeth hybu iechyd y geg sydd ar gael i gleifion. Gwelsom fod y staff yn gwrtais ac yn groesawgar.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu gofal deintyddol a'u bod yn cael gwybodaeth ddigonol am yr opsiynau triniaeth a'u costau. Roedd y systemau apwyntiadau yn effeithiol, gyda chyfathrebu da am unrhyw oedi ac amseroedd agor hwyr, a oedd yn boblogaidd ymysg cleifion a oedd yn gweithio.

Roeddem o'r farn bod y practis yn ymrwymedig i roi gofal deintyddol mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion, ac roedd opsiynau ar gael i ymdrin â'r heriau roedd yr adeilad yn eu hachosi o ran hygyrchedd. Gwelsom fod y practis yn defnyddio gwasanaethau cyfieithu priodol i gleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Staff a thîm deintyddol cyfeillgar a chroesawgar, ac ardal aros gyfforddus
- Roedd rhestr byr rybudd yn cael ei defnyddio i helpu i lenwi unrhyw apwyntiadau a oedd wedi'u canslo.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel a oedd mewn cyflwr da ar y cyfan, a oedd yn cael ei ategu drwy asesiadau risg iechyd a diogelwch cyfredol a thrwy gwblhau gwiriadau diogelwch nwy a thrydan priodol. Roedd trefniadau diogelwch tân addas ar waith ac roedd tystiolaeth bod proses gynllunio clir ar waith ar gyfer argyfyngau, ond roeddem o'r farn y gellid ffurfioli rhai o'r trefniadau.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y trefniadau atal a rheoli heintiau yn dda, gyda deintyddfeydd ac ardal aros glân, cyfarpar diogelu personol priodol a thystiolaeth o archwiliad atal a rheoli diweddar. Fodd bynnag, gwelsom fod angen rhoi sylw i rai rhannau o'r ystafell ddihalogi, fel arwynebeddau anaddas ac uniad heb ei selio yn y llawr.

Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio a'u rheoli'n ddiogel, a gwnaethom drafod camau diogelu ychwanegol, fel cynnwys tyst, ar gyfer y trefniadau gwaredu. Roedd cyfarpar brys ar gael ac yn gyfredol fel sy'n ofynnol, ond roedd angen hyfforddi swyddog cymorth cyntaf ychwanegol i gyflenwi yn ystod cyfnodau o absenoldeb neu wyliau.

Roedd y trefniadau diogelu yn gadarn, roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ac roedd gweithdrefnau clir ar waith. Ar y cyfan, roedd cofnodion y cleifion yn dda ac roedd tystiolaeth bod prosesau cynhwysfawr ar waith i gynllunio triniaethau.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr ystafell ddihalogi yn cael ei chynnal a'i chadw a'i bod yn cynnwys y cyfarpar cywir yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05
- Penodi a hyfforddi swyddog cymorth cyntaf ychwanegol
- Arddangos gwybodaeth am risgiau a manteision pelydrau-X deintyddol lle gellir ei gweld yn hawdd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Deintyddfeydd glân yr olwg â digon o adnoddau
- Roedd siartiau llif y gellir cyfeirio atynt yn gyflym ar gyfer anaf a achosir gan nodwydd wedi'u harddangos
- Roedd neges atgoffa i ddiweddaru hanes meddygol i'w gweld yn yr ystafell aros
- Roedd atgyfeiriadau'n cael eu dogfennu a'u monitro mewn ffordd weithredol
- Roedd y rhestrau gwirio a argymhellir yn cael eu defnyddio i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli clir ar waith yn y practis, gyda'r staff yn cyfeirio at ddiwylliant cefnogol a oedd yn cymryd camau cadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant y staff.

Roedd y trefniadau llywodraethu yn effeithiol, gyda phrosesau cyfathrebu rheolaidd ar waith a chofrestr gyfredol o bolisïau'r practis. Fodd bynnag, gwelsom fod angen adolygu rhai polisïau er mwyn cynnwys mwy o fanylion ac i sicrhau eglurder.

Gwelsom fod prosesau recriwtio da ar waith a bod gwiriadau cyn cyflogi perthnasol yn cael eu cynnal. Yn gyffredinol, roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol, roeddent yn cael eu mentora ac yn cael arfarniadau neu adolygiadau datblygu rheolaidd.

Roedd dulliau adborth gan gleifion a gweithdrefnau ymdrin â chwynion wedi'u harddangos. Cawsom ein sicrhau bod proses Diogelu Data briodol ar waith, gan gynnwys proses ddyddiol i greu copi wrth gefn o ddata. Dangosodd y practis ymrwymiad i wella, gydag adroddiad monitro ansawdd blynyddol a chynllun cynhwysfawr o archwiliadau'n cael eu cwblhau.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddaru polisïau perthnasol lle bo angen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cyfarfodydd tîm rheolaidd gyda chofnodion yn cael eu cymryd a'u rhannu â'r staff
- Cydymffurfiaeth dda â rhwymedigaethau proffesiynol ymhlith y staff
- Roedd darparwr allanol yn creu copi wrth gefn o'r cofnodion bob dydd
- Ymateb cadarnhaol i adborth a oedd hefyd yn cael ei rannu â'r cleifion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol yn holiadur AGIC. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth yn ‘dda iawn’, a gwnaethant gadarnhau bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol eu hapwyntiad ac wedi ateb unrhyw gwestiynau a oedd ganddynt am eu gofal. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *“Mae'r gwasanaeth ac ansawdd y practis deintyddol hwn yn rhagorol. Mae safon y gofal iechyd yn eithriadol o uchel, ac rydych bob amser yn teimlo eich bod yn cael gofal da pan fyddwch yn ymweld â'r clinig hwn.”*
>
> *" ... deintydd medrus a gofalgar iawn sy'n egluro pob cam yn fanwl ac yn cyflwyno'r holl opsiynau.”*
>
> *“Yn fy marn i, mae'r gwasanaeth a'r gofal a ddarperir yn rhagorol, ac rwyf wedi ei argymell i eraill.”*

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwnaethom archwilio ardal aros y cleifion a gwelsom lawer o wybodaeth am y cynhyrchion a'r gwasanaethau sythu dannedd sydd ar gael yn y practis. Roedd costau triniaethau a gweithdrefn gwyno'r practis i'w gweld yn glir. Roedd rhywfaint o wybodaeth gofal iechyd deintyddol berthnasol ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu a chyngor ar lanhau rhwng y dannedd. Gallai'r practis ystyried darparu gwybodaeth ychwanegol am bynciau iechyd y geg ehangach, fel ymwybyddiaeth o ganser y geg a bwyta'n iach.

Roedd gan y practis ddatganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion cyfredol, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac roedd y ddau ar gael yn hawdd yn yr ardal aros i gleifion ac ar wefan y practis. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a gynigir yn y practis.

Roedd enwau'r tîm deintyddol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn glir i'r cleifion.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y staff yn gwrtais ac yn groesawgar, a'u bod yn trin y cleifion â pharch. Roedd desg y dderbynfa a'r ardal aros mewn ystafelloedd ar wahân a oedd yn sicrhau preifatrwydd wrth i'r cleifion sgwrsio â staff y dderbynfa. Roedd ystafell y cydgysylltydd triniaethau ar gael er mwyn i'r cleifion allu cael mwy o breifatrwydd ar gyfer trafodaethau cyfrinachol.

Er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion, roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac ymgyngoriadau, ac roedd bleinds wedi'u gosod ar y ffenestri i atal unrhyw un o'r tu allan rhag gallu gweld i mewn i'r deintyddfeydd. Gwelsom fod naw egwyddor ymarfer moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn glir yn yr ardal aros.

Roedd cytundeb cyfrinachedd yn rhan o'r llawlyfr i gyflogeion, ac roedd y staff yn ei lofnodi i gadarnhau eu bod wedi'i ddarllen a'i ddeall fel rhan o'u proses sefydlu.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn y practis.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael a'u bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall y risgiau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau triniaeth hynny. Lle bo hynny'n berthnasol, roedd pawb a ymatebodd yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth glir am brisiau cyn iddynt ddechrau cael triniaeth.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu triniaeth a gwnaethant gadarnhau bod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Dywedwyd wrthym fod unrhyw oedi i amseroedd apwyntiadau yn cael ei gyfleu i'r cleifion yn brydlon. Roedd system negeseuon gwib rhwng y tîm clinigol a thîm y dderbynfa yn cefnogi hyn. Dywedwyd wrthym mai'r amser aros rhwng triniaethau oedd un wythnos.

Byddai angen i gleifion yr oedd angen triniaeth frys arnynt ffonio cyn gynted â phosibl gyda'r nod o'u gweld ar yr un diwrnod, ac roedd slotiau ar gyfer achosion brys wedi'u cynnwys yn y dyddiadur ar ddiwedd pob diwrnod i hwyluso hyn.

Roedd oriau agor a threfniadau cyswllt y tu allan i oriau'r practis i'w gweld o'r tu allan i'r adeilad. Roedd hyn yn cynnwys oriau agor hwyr ar ddydd Llun, y dywedwyd wrthym eu

bod yn boblogaidd â chleifion a oedd ond yn gallu mynychu y tu allan i oriau gwaith.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau ar gyfer problemau deintyddol brys, dywedodd pedwar ymatebydd nad oeddent yn gwybod sut i wneud hynny.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth yn y practis yn cael ei harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwelsom hysbysiad yn yr ardal aros i gleifion a oedd yn nodi y gellid darparu fersiynau Cymraeg o ddogfennau eraill ar gais. Er nad oedd unrhyw aelod o staff y practis yn siarad Cymraeg, dywedwyd wrthym fod siaradwr Cymraeg a oedd yn gweithio yn yr un adeilad ar gael pe bai angen.

Roedd gwasanaeth cyfieithu priodol ar gael i gleifion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Roedd y practis wedi dechrau rhoi marciau ar gofnodion cleifion yn ddiweddar i nodi eu dewis iaith, a gwnaethom ei annog i sicrhau bod y broses hon yn cael ei hymgorffori fel proses safonol.

Roedd gwefan y practis yn galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau ar-lein. Dywedwyd wrthym y gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb yn y dderbynfa hefyd, gan sicrhau y gallai cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol drefnu triniaethau.

Hawliau a chydraddoldeb

Roeddem o'r farn bod y practis yn ymrwymedig i roi gofal deintyddol mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion, gyda rhagenwau ac enwau a ffefrir yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion trawsryweddol ar gais. Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar waith yn y practis a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y pwnc.

Roedd y practis wedi'i leoli ar lawr cyntaf ac ail lawr yr adeilad, gyda'r ystafelloedd trin ar y llawr cyntaf. Roedd y cyfyngiadau mynediad hyn yn cael eu cyfleu i gleifion yn effeithiol drwy daflen wybodaeth i gleifion a gwefan y practis. Lle bynnag y bo'n bosibl, roedd y staff yn cynnig trefnu triniaeth mewn practis deintyddol arall a oedd wedi'i leoli ar y llawr gwaelod.

Cadarnhaodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiaduron AGIC i gleifion a staff nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu yn y practis.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Ar y cyfan, roedd y practis deintyddol mewn cyflwr da. Roedd digon o le a digon o gyfarpar yn y deintyddfeydd, roeddent yn drefnus ac nid oedd unrhyw annibendod. Yn gyffredinol, roedd yr ystafelloedd wedi'u haddurno a'u dodrefnu i safon dda ac roedd yr ardaloedd i gleifion yn lân ac yn gyfforddus. Roedd trefniadau digonol ar waith i'r staff newid eu dillad ac roedd loceri ar gael iddynt storio unrhyw eiddo personol yn ddiogel.

Gwelsom bolisi ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad er mwyn helpu i sicrhau bod y safle yn parhau'n addas at y diben. Fodd bynnag, gwelsom fod angen rhywfaint o sylw ar yr ystafell ddihalogi gan fod tystiolaeth bod dŵr wedi gollwng yng nghornel y ffenestr yn y gorffennol a bod angen gosod arwynebeddau a chypyrddau newydd yn lle'r rhai presennol a oedd yn anaddas. Roedd yn ymddangos bod y llawr yn hen ac nad oedd un o'r uniadau wedi'i selio. Roedd baw a malurion yn casglu yno ac roedd angen ailosod y rhan hon o'r llawr. Gwelsom hefyd fod pecynnau glân yn cael eu storio wrth ymyl y basn golchi dwylo a bod risg y byddai dŵr yn tasgu arnynt a'u halogi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr ystafell ddihalogi yn cael ei chynnal a'i chadw a'i bod yn cynnwys digon o gyfarpar yn unol â chanllawiau WHTM 01-05, gan weithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion amgylcheddol neu faterion yn ymwneud â chynnal a chadw neu storio a allai effeithio ar brosesau dihalogi effeithiol.

Gwelsom bolisi parhad busnes, ynghyd â rhestr o weithdrefnau i'w dilyn pe na fyddai'n bosibl darparu gwasanaethau deintyddol yn sgil argyfwng neu drychineb. Roedd trefniant cilyddol ar waith gyda gwasanaeth deintyddol cyfagos er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau mewn argyfwng, a gwnaethom drafod ei ffurfioli a'i gynnwys yn y polisi. Gwelsom hefyd fod polisi rheoli risg y practis yn cynnwys pwyntiau bwled a bod angen mwy o fanylion ynddo.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi parhad busnes i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod argyfwng wedi'u dogfennu'n glir a'u ffurfioli'n briodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi rheoli risg cynhwysfawr ar waith yn y practis sy'n nodi'n glir sut y bydd risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu, eu rheoli a'u monitro.

Gwelsom gopïau o asesiadau risg iechyd a diogelwch cyfredol a chynlluniau gweithredu a oedd wedi'u llofnodi a'u cwblhau. Roedd gan y practis bolisi iechyd a diogelwch ar waith, ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy a thystysgrif yswiriant atebolrwydd y cyflogwr wedi'u harddangos fel sy'n ofynnol. Roedd Adroddiad ar Gyflwr

Gosodiadau Trydanol cyfredol sy'n cael ei gwblhau bob pum mlynedd, ynghyd â chofnodion o Brofion Offer Cludadwy a thystysgrif diogelwch nwy flynyddol ar gael.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau da ar waith mewn perthynas ag atal tân, gydag asesiad risg tân addas wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo. Roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd cynllun gweithredu priodol yn cael ei arddangos, roedd yr allanfeydd tân yn glir ac roedd arwyddion addas ar eu cyfer. Roedd tystiolaeth bod gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal o'r larymau tân a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân. Roedd arwyddion yn rhoi gwybod i ymwelwyr nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle, yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y deintyddfeydd yn lân yr olwg ac wedi'u dodrefnu'n briodol fel y gellid eu glanhau'n effeithiol. Roedd amserlenni glanhau ar gael i helpu i gefnogi arferion glanhau effeithiol, ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hawdd i'r staff ei ddefnyddio. Roedd polisi atal a rheoli heintiau priodol ar waith, a oedd yn cynnwys enw'r arweinydd rheoli heintiau dynodedig.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith ar gyfer anafiadau a achosir gan nodwydd, roedd y biniau offer miniog yn cael eu storio'n addas ac roedd siartiau llif ar gyfer anafiadau a achosir gan nodwydd yn cael eu harddangos ym mhob deintyddfa i helpu'r staff pe bai digwyddiad yn codi. Dywedwyd wrthym fod cymorth iechyd galwedigaethol ar gael i'r staff.

Dangoswyd trefniadau addas ar gyfer dihalogi offer deintyddol amldro a disgrifiwyd system addas ar gyfer cludo offer yn ddiogel rhwng y deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi. Gwelsom dystiolaeth bod y cyfarpar dihalogi yn cael ei wirio a'i gynnal a'i gadw fel sy'n ofynnol. Roedd archwiliad atal a rheoli heintiau wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod contractau ar waith i drosglwyddo gwastraff yn ddiogel o'r practis a bod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol cyn iddo gael ei gasglu. Roedd trefniadau addas ar waith i ymdrin â sylweddau sy'n destun y rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol ar atal a rheoli heintiau.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym eu bod o'r farn fod y lleoliad yn lân a bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau ar waith yn y practis. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr, bod oergell feddyginiaethau ddynodedig ar gael a bod ei thymheredd yn cael ei fonitro. Roedd prosesau addas ar waith ar gyfer gwirio, archebu a thrin meddyginiaethau. Gwnaethom drafod atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer gwaredu cyffuriau a reolir yr oedd y dyddiad defnyddio arnynt wedi mynd heibio drwy gynnwys tyst ychwanegol, yn unol ag arferion gorau.

Roedd meddyginiaethau a roddwyd yn cael eu cofnodi'n glir yng nghofnodion y cleifion a gwelsom fod arwyddion wedi'u harddangos i atgoffa'r cleifion i roi gwybod i'r practis am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol, ac roedd hyn yn arfer da yn ein barn ni.

Roedd polisi ysgrifenedig priodol ar waith ar gyfer ymateb i argyfyngau meddygol yn y practis a oedd yn seiliedig ar y canllawiau adfywio cenedlaethol cyfredol. Roedd system addas ar waith i sicrhau bod cyfarpar brys ar gael a'i fod yn gyfredol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant adfywio.

Nodwyd bod pecyn cymorth cyntaf y practis yn cynnwys eitemau priodol a bod pob eitem yn gyfredol. Gwelsom fod y silindrau ocsigen wedi cael eu gwirio a'u gwasanaethu, a bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol i'w defnyddio. Nodwyd gennym mai dim ond un aelod o staff oedd wedi'i benodi a'i hyfforddi i fod yn swyddog cymorth cyntaf, a oedd yn golygu nad oedd unrhyw aelod arall o'r staff ar gael i gyflenwi pan fyddai'r unigolyn hwnnw ar wyliau neu'n absennol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi a'u penodi'n swyddogion cymorth cyntaf i sicrhau bod rhywun ar gael bob amser pan fo'r practis yn gweithredu.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod pob deintyddfa yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu triniaethau deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd y cyfarpar clinigol yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da.

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X. Roedd hyn yn cynnwys rheolau lleol, rhestr cyfarpar ac asesiad risg ymbelydredd cyfredol, ac roedd tystiolaeth o waith cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar pelydr-X ar gael. Gwelsom arwyddion ar ddrws pob deintyddfa yn rhybuddio ymwelwyr bod cyfarpar pelydr-X yn yr ystafell fel sy'n ofynnol. Er y dywedwyd wrthym fod cyngor ar risgiau a manteision pelydrau-X deintyddol yn cael ei rannu â chleifion, nid oedd hyn ar ffurf ysgrifenedig lle y gallai'r cleifion ei weld.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth sy'n esbonio'r risgiau a'r manteision o gael archwiliad pelydr-X yn cael ei harddangos yn glir i'r cleifion ei darllen.

Roedd pob aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â'r broses o gynnal archwiliadau pelydr-X wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y ffeiliau staff a welsom.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod trefniadau da ar waith mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Roedd gan y practis bolisi diogelu a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol perthnasol. Roedd siartiau llif diogelu ar gael y gallai'r staff gyfeirio atynt yn gyflym pe bai pryder yn codi.

Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ac roeddent yn wybodus am brosesau amddiffyn plant ac oedolion. Roedd arweinydd diogelu wedi cael ei hyfforddi a'i benodi ac roedd yn gallu defnyddio Gweithdrefnau Diogelu Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf yn hyn o beth. Roedd cymorth ar gael i'r staff gan arweinydd y practis a thrwy wasanaeth cymorth trydydd parti pe byddai pryder diogelu yn codi.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Cawsom ein sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau, eu bod yn dilyn y canllawiau statudol a bod cyngor proffesiynol a phrosesau adolygu gan gymheiriaid clinigol ar gael i staff pan fo angen. Gwelsom fod digon o staff wedi'u hyfforddi ar gael yn y practis i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd y practis yn defnyddio'r rhestrau gwirio a argymhellir er mwyn helpu i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir. Gwelsom fod atgyfeiriadau am driniaeth yn cael eu holrhain a'u dogfennu'n addas yng nghofnodion y cleifion.

Cofnodion cleifion

Roedd system rheoli cofnodion addas ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel a'u cadw am gyfnodau priodol o amser yn unol â'r Rheoliadau. Roedd polisi priodol ar waith i sicrhau bod pob claf yn cydsynio i driniaeth ar sail gwybodaeth.

Gwnaethom edrych ar sampl o 10 cofnod gofal deintyddol ar gyfer amrywiaeth o gleifion. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod ansawdd cofnodion y cleifion yn dda a bod dynodyddion cleifion addas wedi'u nodi, bod hanes meddygol llawn wedi'i gofnodi a bod tystiolaeth i ddangos bod proses sgrinio am ganser y geg yn cael ei chynnal. Roedd yn ymddangos o'r cofnodion bod cleifion yn cael gwybodaeth dda a gwelsom gan fod

cynlluniau triniaeth llawn, opsiynau a chostau wedi'u nodi. Gwnaethom nodi nad oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu wedi cael ei gofnodi yn un o'r cofnodion lle ystyriwyd bod hyn yn berthnasol.

Effeithlon

Effeithlon

Roedd y cyfleusterau a'r safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu ac roedd sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon, gyda rhestr byr rybudd ar waith er mwyn helpu i lenwi unrhyw apwyntiadau a fyddai'n cael eu canslo.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Roedd adborth y staff yn gadarnhaol ac roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n briodol i ddarparu gofal diogel, ac mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis. Roedd y staff yn teimlo bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bod y practis yn cymryd camau cadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant y staff. Dywedodd pob aelod o'r staff y byddent yn argymell y practis fel lle da i weithio ynddo. Dywedodd un aelod o'r staff:

> *"Rwy'n mwynhau gweithio yma ac mae'r tîm yn gefnogol iawn."*

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Fel practis bach, roedd strwythur rheoli clir ar waith. Roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei arwain yn dda, a bod ymrwymiad clir ymhlith tîm y practis i ddarparu gofal deintyddol o safon uchel.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer rhannu hysbysiadau diogelwch brys a gwybodaeth berthnasol arall â'r staff. Gwelsom fod cofnodion o gyfarfodydd staff yn cael eu rhannu a'u llofnodi gan y staff ar ôl iddynt eu darllen, gan gynnwys y rhai hynny na allent fod yn bresennol.

Gwelsom fod y practis yn cadw cofrestr o bolisïau a oedd ar gael i gefnogi'r staff yn eu rolau. Roedd yr holl bolisïau yn gyfredol ac wedi cael eu llofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd tîm y practis yn cynnwys un deintydd, un hylenydd a dwy nyrs ddeintyddol, a rheolwr y practis oedd y cydgysylltydd triniaethau.

Roedd gan y practis bolisi recriwtio, sefydlu a chadw staff cyfredol. Roedd yr holl gyflogeion yn cael llawlyfr staff a oedd yn cynnwys amodau cyflogaeth a rhwymedigaethau hyfforddiant. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff a gwelsom fod proses sefydlu addas ar waith i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn deall gweithdrefnau'r practis. Gwnaethom nodi nad oedd y cofnodion sefydlu bob amser wedi'u llofnodi i gadarnhau bod y broses wedi'i chwblhau. Dylai'r practis ystyried sicrhau bod dogfennaeth sefydlu yn cael ei llofnodi a'i dyddio gan uwch-aelodau o staff ar ddiwedd y broses er mwyn darparu tystiolaeth a rhoi sicrwydd bod y broses wedi'i chwblhau a'i hadolygu'n llawn.

Gwelsom fod gan bob aelod o'r staff dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ogystal ag yswiriant indemniad a thystiolaeth o imiwneiddiadau Hepatitis B a chofnodion sgrinio iechyd eraill.

Roedd cydymffurfiaeth uchel â hyfforddiant gorfodol ac roedd y broses yn cael ei monitro gan reolwr y practis. Gwnaethom drafod y syniad o roi matrics hyfforddiant ar waith er mwyn symleiddio'r broses hon.

Roedd pob aelod o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl, a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael arfarniad neu adolygiadau datblygiadol yn ystod y 12 mis diwethaf. Nododd un aelod o staff fod sesiynau mentora yn cael eu darparu hyd nes y byddai wedi cymhwyso.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal arolygon cleifion ar hap yn rheolaidd er mwyn gofyn barn cleifion ar ansawdd y driniaeth a'r gofal a ddarperir. Roedd holiaduron cleifion ar-lein, blwch awgrymiadau ac opsiwn i adolygu gwasanaethau ar-lein hefyd ar gael, ac roedd y canlyniadau'n cael eu hadolygu fel rhan o gyfarfodydd misol y staff. Gwelsom fod ymatebion i adborth gan gleifion yn cael eu harddangos yn yr ardal aros i sicrhau bod cleifion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses adborth a'u bod yn teimlo'n rhan ohoni.

Roedd y practis yn arddangos gweithdrefn gwyno glir a oedd yn cynnwys terfynau amser perthnasol ar gyfer ymatebion a manylion cyswllt sefydliadau eraill y gallai cleifion gysylltu â nhw i gael cymorth eirioli neu pe byddent yn anfodlon â'r ymateb. Roedd cofnodlyfr cwynion ar gael ond dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law hyd yma.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd polisi Diogelu Data priodol ar waith yn y practis. Cawsom ein sicrhau bod y practis yn cymryd cyfrinachedd a diogelu data o ddifrif a'i fod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Dywedwyd wrthym fod copi wrth gefn addas yn cael ei gadw o'r cofnodion gan ddefnyddio darparwr storio data allanol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gwella ansawdd

Roedd gan y practis bolisi priodol ar gyfer llywodraethu gweithgareddau gwella ansawdd. Gwnaethom edrych ar yr adroddiad monitro ansawdd blynyddol a oedd yn nodi sut mae'r practis yn asesu ac yn monitro'r gwasanaeth a ddarperir drwy werthuso adborth gan staff a chleifion, dadansoddi canlyniadau archwiliadau clinigol ac adolygu adolygiadau lleol a chenedlaethol. Roedd y rhain wedi arwain at nifer o welliannau, gan gynnwys cyflwyno polisi ar gyfer dyddiad dod i ben deunyddiau deintyddol a rhestr wirio berthnasol.

Gwelsom fod cynllun cynhwysfawr o archwiliadau yn cael ei roi ar waith. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar, gan gynnwys archwiliad o gofnodion cleifion, cynlluniau triniaeth, rhoi'r gorau i smygu, presgripsiynu gwrthfiotigau a mynediad i bobl anabl.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Disgrifiodd rheolwr y practis drefniadau ar gyfer ymgysylltu â phractisau deintyddol arbenigol eraill a darparwyr gwasanaethau gofal iechyd lleol. Yn hytrach na gweithio mewn partneriaeth, roedd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar wybodaeth y clinigydd am arbenigeddau a galluoedd practisau eraill.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Andrew Thomas Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 02 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau	Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.		
Yr hyn sydd angen ei wella		**Safon / Rheoliad**	
1.			
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		**Swyddog cyfrifol**	**Amserlen**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Andrew Thomas Dental Care

Dyddiad yr arolygiad: 02 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Roedd angen rhoi rhywfaint o sylw i'r ystafell ddihalogi gan fod tystiolaeth bod dŵr wedi gollwng drwy'r ffenestr yn y gorffennol, roedd arwynebeddau a chypyrddau anaddas, ac roedd uniad yn y llawr lle roedd baw yn casglu, yn ôl pob golwg. Gwelsom hefyd fod pecynnau glân yn cael eu storio wrth ymyl y basn golchi dwylo.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr ystafell ddihalogi yn cael ei chynnal a'i chadw a'i bod yn cynnwys digon o gyfarpar yn unol â chanllawiau WHTM 01-05, gan weithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion amgylcheddol neu faterion yn ymwneud â chynnal a chadw neu storio a allai effeithio ar brosesau dihalogi effeithiol.	Rheoliadau 13(6)(a)(i) a 22(2)(a) a (b)	Mae'r llawr yn parhau i gael ei lanhau'n drylwyr bob dydd. Trefniant dros dro yw'r ystafell ddihalogi ar ei ffurf bresennol ar ôl newid yn y les lle bu'n rhaid i ni symud o'n hystafell ddihalogi flaenorol i ran arall o'r adeilad. Mae cynlluniau ar waith i ailosod cypyrddau, arwynebeddau a llawr newydd yn yr ardal. Caiff pecynnau glân eu storio mewn cwpwrdd.	Rheolwr cofrestredig	Caiff cynlluniau eu cwblhau ar ôl cyfnod gwyliau'r haf; bwriedir ailosod yr ystafell yn ddelfrydol o fewn 6-9 mis.

2.	Roedd y polisi parhad busnes yn cynnwys trefniant cilyddol â gwasanaeth deintyddol cyfagos er mwyn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau mewn argyfwng.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi parhad busnes i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau yn ystod argyfwng wedi'u dogfennu'n glir a'u ffurfioli'n briodol.	Rheoliad 8(1)(o)	Nod y practis yw ffurfioli trefniant cilyddol â gwasanaethau deintyddol cyfagos a diweddaru'r polisi parhad busnes yn unol â hynny.	Rheolwr cofrestredig	O fewn 6 mis
3.	Roedd y polisi rheoli risg yn cynnwys pwyntiau bwled ac roedd angen mwy o fanylion ynddo.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi rheoli risg cynhwysfawr ar waith yn y practis sy'n nodi'n glir sut y bydd risgiau'n cael eu nodi, eu hasesu, eu rheoli a'u monitro.	Rheoliad 8(1)(e)	Mae'r polisi Rheoli Risg eisoes wedi cael ei ddiweddaru'n briodol i gyd-fynd â'n polisi asesu risg manwl	Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau ar 3 Mehefin 2026

4.	Gan mai dim ond un aelod o staff oedd wedi'i benodi a'i hyfforddi i fod yn swyddog cymorth cyntaf, nid oedd unrhyw un arall wedi cwblhau'r hyfforddiant addas i gyflenwi pan fo'r unigolyn hwnnw ar wyliau neu'n absennol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod digon o staff wedi'u hyfforddi a'u penodi'n swyddogion cymorth cyntaf i sicrhau bod rhywun ar gael bob amser pan fo'r practis yn gweithredu.	Rheoliadau 13(1)(b) a 17(3)(b)	Mae aelodau eraill o'r tîm wedi cwblhau hyfforddiant i fod yn swyddogion cymorth cyntaf yn y gorffennol. Fodd bynnag, dim ond un aelod o'r staff oedd wedi cwblhau cwrs gloywi yn ystod y tair blynedd diwethaf. Bydd aelodau ychwanegol o'r tîm yn cwblhau'r hyfforddiant gloywi Cymorth Cyntaf er mwyn sicrhau bod rhywun ar gael bob amser, fel oedd ar waith yn y gorffennol, pan fo'r practis yn gweithredu.	Rheolwr cofrestredig	Cyn gynted â phosibl ar ôl i bawb ddychwelyd o'u cyfnodau gwyliau blynyddol dros yr haf.
5.	Er y dywedwyd wrthym fod cyngor ar risgiau a manteision pelydrau-X deintyddol yn cael ei rannu â chleifion, nid oedd hyn ar ffurf ysgrifenedig lle y gallai'r cleifion ei weld.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth sy'n esbonio'r risgiau a'r manteision o gael archwiliad pelydr-X yn cael ei harddangos yn glir i'r cleifion ei darllen.	Rheoliad 13(9)(a)	Mae'r poster a argymhellir bellach wedi'i arddangos yn glir yn y ddeintyddfa	Rheolwr cofrestredig	Wedi'i gwblhau ar 3 Mehefin 2026

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Jo Thomas

Swydd: Rheolwr cofrestredig

Dyddiad: 16 Gorffennaf 2026